Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro

25 Chwefror 2020



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

25 Chwefror 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ......................................................................................... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ........................................................................... 1

**2. Datblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE .............. 2**

Safbwynt y DU ........................................................................................... 2

Safbwynt yr UE .......................................................................................... 3

**3. Datblygiadau yn y DU............................................................. 5**

Tasglu Ewropeaidd Llywodraeth y DU ........................................................ 5

Deddfwriaeth y DU..................................................................................... 5

Polisi mewnfudo'r DU ................................................................................ 7

Ethol cadeiryddion pwyllgorau dethol Tŷ'r Cyffredin.................................. 8

Cysylltiadau rhynglywodraethol.................................................................. 8

**4. Datblygiadau yng Nghymru.................................................... 9**

Trafodaethau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ... 9

Trafodaethau rhyngwladol ........................................................................10

Strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru.............................................. 11

Fframweithiau Cyffredin............................................................................ 11

Dinasyddion yr UE yng Nghymru..............................................................12

**Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE:** Adroddiad Monitro

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn dadansoddi'r prif ddatblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ers 23 Ionawr, a hynny o safbwynt y DU a Chymru.

## Crynodeb o'r datblygiadau

**Yn yr UE**, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion drafft ar gyfer y trafodaethau ddechrau mis Chwefror ac, ers hynny, mae'r Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop wedi bod yn eu trafod. Mae'n ymddangos bod y cynigion drafft wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r trafodaethau hyn a disgwylir iddynt gael eu cwblhau yng Nghyngor Materion Cyffredinol yr UE ar 25 Chwefror.

Cyhoeddodd **Llywodraeth y DU** hefyd ddatganiad ar 3 Chwefror am ei thrafodaethau arfaethedig â'r UE. Diddymwyd yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chadarnhaodd y Llywodraeth mai David Frost, Prif Negodydd y DU, fyddai'n arwain y trafodaethau ac yn adrodd yn ôl i'r Prif Weinidog. Daeth Gweinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig ynghyd yng Nghydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a Fforwm y Gweinidogion ar fasnach. Cyflwynwyd y Biliau Pysgodfeydd a'r Amgylchedd yn y Senedd a chafodd y Bil Amaethyddiaeth ei drafod gan bwyllgor bil cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer rhoi polisi mewnfudo newydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio.

**Yng Nghymru**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit nad oedd Llywodraeth y DU wedi 'gwneud fawr ddim ymdrech' i ystyried barn Llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi ei hamcanion negodi. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddylanwadu ar ddewisiadau strategol Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau, ond er mwyn gwneud hynny roedd angen cael gwybodaeth sylfaenol. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio i gytuno ar goncordat ar gyfer rôl Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau masnach rhyngwladol. Gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol yn nodi ei bod yn fodlon ar Fil Pysgodfeydd y DU fel y'i drafftiwyd, ond roedd pryderon o hyd ynghylch Bil Amaethyddiaeth y DU. Ymatebodd Llywodraeth Cymru hefyd i adroddiadau'r Pwyllgor ar fframweithiau cyffredin, cytundebau rhyngwladol a strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru

# 2. Datblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE

## Safbwynt y DU

Ar 3 Chwefror, **rhoddodd y Prif Weinidog araith** a **chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig** yn cadarnhau bod y DU yn gobeithio cael perthynas â'r UE yn y dyfodol a oedd naill ai'n seiliedig ar gytundeb masnach rydd (FTA) neu'n parhau ar sail telerau'r Cytundeb Ymadael:

> The question for the rest of 2020 is whether the UK and the EU can agree a deeper trading relationship on the lines of the free trade agreement the EU has with Canada, or whether the relationship will be based simply on the Withdrawal Agreement deal agreed in October 2019, including the Protocol on Ireland / Northern Ireland.

Aeth rhagddo i nodi y byddai cytundeb masnach rydd yn ganolog i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gyda chytundebau ychwanegol yn ymwneud â meysydd penodol, fel pysgodfeydd, diogelwch mewnol a chytundebau 'mwy technegol', fel cydweithredu ym maes hedfan neu raglenni niwclear sifil. Dylai pob cytundeb gynnwys trefniadau i ddatrys anghydfod. Awgrymir y dylid cynnwys y meysydd a ganlyn mewn cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE:

> National treatment and market access for goods; Trade remedies; Technical barriers to trade; Sanitary and phytosanitary measures; Customs and trade facilitation; Cross-border trade in services and investment; Temporary entry for business purposes; Regulatory framework; Mutual recognition of professional qualifications; Financial services; Road transport; Competition policy, subsidies, environment and climate, labour and tax.

Ceir rhagor o fanylion am ddau gytundeb arall ar bysgodfeydd a diogelwch mewnol, ynghyd â meysydd eraill lle bydd y DU a'r UE yn cydweithredu:

> Air transport; Border, immigration and social security cooperation; Participation in EU programmes; Other areas of mutual interest.

O ran yr ymrwymiad i gydweithredu, mae'r datganiad yn egluro nad oes angen cytuniad rhyngwladol i reoli cytundebau cydweithredu mewn meysydd eraill yn y dyfodol ac, yn sicr, nid oes angen sefydliadau cyffredin i wneud hynny. Daw'r datganiad i ben gyda nodyn ar gyfwerthedd gwasanaethau ariannol a digonolrwydd data sy'n cydnabod y bydd y DU yn defnyddio'r un fframweithiau





rheoleiddio'n union â'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'r DU, yn ôl y datganiad, yn bwriadu ymgymryd â'i phrosesau asesu technegol ei hun yn yr ysbryd hwn.

### Araith David Frost, Brwsel 17 Chwefror

Rhoddodd prif drafodwr Brexit y DU **araith** mewn prifysgol ym Mrwsel ar 17 Chwefror, yn esbonio'r safbwynt diweddaraf. Dywedodd mai'r opsiwn gorau ym marn Llywodraeth y DU fyddai perthynas debyg i'r cytundeb masnach rydd rhwng Canada a'r UE ond, os nad yw hynny'n bosibl, byddai'n barod i fasnachu ar delerau tebyg i'r cytundeb ag Awstralia. Tanlinellodd hefyd bwysigrwydd sofraniaeth i Lywodraeth y DU a nododd y bydd gan y DU 'fantais enfawr dros yr UE' gan y byddai'n gallu gosod safonau uchel newydd, denu buddsoddiad a hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.

## Safbwynt yr UE

Cyhoeddodd Comisiwn yr UE ei **gynigion negodi** ar 3 Chwefror 2020. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau yng **nghyfarfod Materion Cyffredinol yr UE**, a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020. Mae'r cynigion yn nodi gweledigaeth yr UE ar gyfer perthynas gynhwysfawr yn y dyfodol, sy'n cynnwys 'un pecyn' sy'n cynnwys tair elfen (llywodraethu, partneriaeth economaidd a phartneriaeth ddiogelwch), yn seiliedig ar y gorchymyn rhyngwladol sy'n seiliedig ar reolau. Mae'n cyfeirio at y DU fel:

> Non-Schengen third country that cannot have the same rights and enjoy the same benefits as a member.

Mae'r cynnig yn rhoi trosolwg manwl o safbwynt negodi'r UE yng nghyd-destun y **bartneriaeth economaidd**, sy'n cynnwys y meysydd a ganlyn:

> Goods; Services and investment; Financial services cooperation; Digital trade; Capital movements and payments; Intellectual property; Public procurement; Mobility; Transport (aviation, road and rail); Energy and raw materials; Fisheries; Small and medium-sized enterprises (SMEs); Global cooperation; Level Playing Field (LPF) and sustainability (competition, state-owned enterprises; taxation; labour and social protection; environment; climate change; sustainable development).

O ran pysgodfeydd, mae paragraff 85 yn y cynigion yn nodi y bydd y telerau'n gwneud y canlynol:

> guide the conditions set out in regard of other aspects of the economic part of the economic partnership.

I gyflawni amcanion yr UE, dylai'r bartneriaeth gynnwys darpariaethau sy'n adeiladu ar yr amodau presennol ar gyfer mynediad cyfatebol, cwotâu a gweithgaredd traddodiadol fflyd yr UE. Dylid sicrhau cytundeb ar bysgodfeydd erbyn 1 Gorffennaf 2020, yn unol â'r ymrwymiad yn y **Datganiad Gwleidyddol**, er mwyn medru rhoi'r trefniadau ar waith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod pontio.

O ran y **bartneriaeth diogelwch** y mae'r UE yn ei rhagweld, mae'r cynnig yn esbonio'i safbwynt mewn perthynas â:

> Law enforcement and judicial cooperation in criminal matters; Foreign policy, security and defence; Thematic cooperation (such as on cyber security and irregular migration).

Mae'r **trefniadau llywodraethu** a ragwelir yn cynnwys cynigion ynghylch trefniadau sefydliadol, fel strwythurau, trefniadau rheoli, gweinyddu, goruchwylio a datrys anghydfod. Mae hyn yn cynnwys gallu corff llywodraethu rhwng y DU a'r UE i gyfeirio anghydfod at banel cyflafareddu annibynnol. O ran cwestiynau'n ymwneud â chyfraith yr UE, dylid cyfeirio unrhyw anghydfod at y CJEU. Os na chydymffurfir â phenderfyniad y panel neu'r CJEU, awgrymir y dylid cynnig iawndal ariannol neu y dylid rhoi mesurau priodol ar waith, fel atal ei rwymedigaethau o dan y cytundeb mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio parhaus. Mae'r drefn a ragwelir i'w gweld ar ffurf **siart lif.**

### Gibraltar

Mae cynigion yr UE yn cadarnhau **na fydd Gibraltar yn cael ei gynnwys** yng nghwmpas tiriogaethol y cytundebau a gaiff eu cwblhau yn ystod y trafodaethau, er nad yw hyn yn golygu na fydd modd dod i gytundeb ynghylch Gibraltar wedyn, ar yr amod bod Sbaen yn cytuno â hynny ymlaen llaw.

### Penderfyniad Senedd Ewrop

Mewn penderfyniad a **fabwysiadwyd ar 12 Chwefror**, cefnogodd Senedd Ewrop gynigion y Comisiwn. Mae'r penderfyniad yn ehangu'n fanylach ar gynigion y Comisiwn mewn rhai meysydd, gan gynnwys Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon, pysgodfeydd, rhwymedigaethau rhyngwladol a thrafnidiaeth.





# 3. Datblygiadau yn y DU

## Tasglu Ewropeaidd Llywodraeth y DU

Diddymwyd yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 3 Chwefror, **dywedodd y Prif Weinidog:**

> Those of its functions which are still required have been transferred to relevant government departments.

**Cadarnhaodd y Llywodraeth** mai **David Frost,** Prif Negodydd y DU, fyddai'n arwain y tîm negodi'r Tasglu Ewropeaidd ac yn adrodd yn ôl i'r Prif Weinidog. Bydd y tasglu'n cael cymorth gan **Tim Barrow,** Llysgennad y DU yn yr UE, a bydd yn gweithio gydag adrannau eraill ar feysydd polisi penodol.

Pan ad-drefnwyd y Llywodraeth, arhosodd **Michael Gove** yn ei swydd fel Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a chafodd ei benodi hefyd yn Weinidog Swyddfa'r Cabinet, yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o ymadael â'r UE o ran yr effaith ar ddatganoli ac am oruchwylio materion cyfansoddiadol a chynnal undod y Deyrnas Unedig. Mae **Elizabeth Truss** yn parhau yn ei swydd fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol.

## Deddfwriaeth y DU

### Y Bil Amaethyddiaeth

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Amaethyddiaeth** yn Senedd y DU ar 16 Ionawr. Mae'r Bil yn ymestyn pwerau i Weinidogion Cymru barhau â'r system bresennol o roi cymorth ariannol i ffermwyr Cymru ac mae'n cynnwys darpariaethau'n ymwneud â nifer o feysydd eraill gan gynnwys gwrteithiau a ffermio organig. Yn wahanol i Fil Amaethyddiaeth 2017-19, nid yw'n ehangu pwerau i ddatblygu polisi a fyddai'n disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru.

Trafodwyd y Bil yn ystod yr **Ail Ddarlleniad** ar 3 Chwefror, ac mae **Pwyllgor Bil Cyhoeddus** yn ei drafod yn awr. Disgwylir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad arno gerbron Tŷ'r Cyffredin erbyn dydd Mawrth 10 Mawrth.

Gosododd Llywodraeth Cymru **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar y Bil ar 12 Chwefror. Roedd hwn yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn fodlon defnyddio'r Bil fel cyfrwng deddfwriaethol ond bod ganddi 'bryderon o hyd' ynghylch darpariaethau'r Bil ar adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32), cytundebau tenantiaeth amaethyddol (cymal 34 ac Atodlen 3), a rheoleiddio cynhyrchion

organig (cymal 36).

Wrth **siarad â'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus** ar 13 Chwefror, dywedodd Tim Render, a oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, fod y Bil yn rhoi pwerau cydamserol i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru ym maes adnabod ac olrhain anifeiliaid, a rheoleiddio cynhyrchion organig a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn trafod a ddylai'r pwerau hyn fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddi ymgynghori'n unig.

Pan oedd Bil Amaethyddiaeth 2017-19 ar ei hynt drwy'r Senedd, roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn anghytuno ynghylch a oedd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu lefel y cymorth amaethyddol yn unol  â rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd yn cael eu cadw'n ôl ai peidio. Daethant i **Gytundeb Dwyochrog** gan sefydlu gweithdrefn i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau hynny. Dywedodd Tim Render, cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, **wrth y Pwyllgor Bil Cyhoeddus** fod Llywodraeth y DU wedi cytuno i gario'r cytundeb hwnnw drosodd.

### Y Bil Pysgodfeydd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Pysgodfeydd** yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr. Mae'r Bil yn darparu fframwaith pysgodfeydd ar gyfer y DU, y tu allan i Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE, mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu. Mae'n caniatáu i'r DU bennu, ymhlith pethau eraill, mynediad i ddyfroedd y DU, cwotâu a thrwyddedu cychod pysgota. Trafodwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ystod yr **Ail Ddarlleniad** ar 11 Chwefror. Bydd Cyfnod 2 yn dechrau ar 2 Mawrth.

Rhaid i'r cenhedloedd datganoledig roi cydsyniad i'r Bil gan ei fod yn dod o fewn eu cymhwysedd deddfwriaethol.  Yn achos Cymru, mae hefyd yn newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy ehangu ei allu i ddeddfu ar gyfer Cymru a pharth Cymru ym maes pysgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod. Mewn **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cytuno â'r Bil fel y'i drafftiwyd, gan nodi bod angen ymdrin â'r mater ar lefel y DU gyfan. Gan fod angen rhoi rhai trefniadau ar waith cyn diwedd y cyfnod gweithredu, esboniodd hefyd y byddai'n cytuno i gymryd pwerau i Weinidogion Cymru drwy Fil y DU nes caiff Bil Pysgodfeydd Cymru ei gyflwyno i'r Cynulliad.





### Bil yr Amgylchedd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU **Fil yr Amaethyddiaeth** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr. Mae'r Bil yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ac mae'n cynnwys darpariaethau'n ymdrin â gwastraff, effeithlonrwydd adnoddau, ansawdd aer, galw cynhyrchion yn ôl am resymau amgylcheddol, dŵr, natur, bioamrywiaeth a chyfamodau cadwraeth. Bydd Tŷ'r Cyffredin yn trafod y Bil yn yr Ail Ddarlleniad ar 26 Chwefror.

Rhaid i'r cenhedloedd datganoledig roi cydsyniad i'r Bil gan ei fod yn dod o fewn eu cymhwysedd deddfwriaethol, er mai dim ond rhai o'r ddarpariaethau sy'n gymwys i bob cenedl.   Rhestrir y rhain mewn tabl yn y **Nodiadau Esboniadol**. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil eto.

### Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)

Cafodd **Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)** Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ionawr. Pleidleisiodd y Cynulliad i gytuno ar **gynnig cydsyniad deddfwriaethol** ar 22 Ionawr. Mae'r Bil yn caniatáu i Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2020. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **erthygl ar y ddeddfwriaeth** a'r goblygiadau i Gymru.

## Polisi mewnfudo'r DU

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddatganiad polisi am **gynlluniau ar gyfer system fewnfudo'r DU** ar 19 Chwefror. Mae hwn yn nodi sut y bydd gweithwyr medrus yn gallu dod i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Mae'n nodi na fydd unrhyw lwybr cyffredinol ar gyfer gweithwyr y dynodwyd nad oes ganddynt sgiliau penodol.

Mae'r Swyddfa Gartref yn nodi y bydd angen i ymgeiswyr fod wedi cael cynnig swydd gan noddwr cymeradwy; swydd sy'n galw am y sgiliau priodol; a sgiliau iaith Saesneg sy'n cyrraedd y lefel ofynnol. Bydd hyn yn rhoi hyd at 50 'pwynt' iddynt.

Bydd angen o leiaf 20 pwynt arall arnynt, a gallant ennill y rhain mewn gwahanol ffyrdd:

- 10 pwynt - Cyflog o  £23,040 – £25,599
- 10 pwynt - PhD mewn pwnc sy'n berthnasol i'r swydd
- 10 pwynt - Cyflog o  £25,600 neu uwch

- 20 pwynt - Swydd mewn galwedigaeth lle mae prinder gweithwyr
- 20 pwynt - PhD mewn pwnc STEM sy'n berthnasol i'r swydd

Yn ôl y Swyddfa Gartref, bydd y system yn dechrau fis Ionawr 2021, ond bydd modd gwneud cais o dymor yr hydref ymlaen. Mae hefyd yn dweud y bydd y cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE yn parhau ar agor ar gyfer ceisiadau tan 30 Mehefin 2021. Bydd llwybrau eraill ar gael i fewnfudwyr, er enghraifft trefniadau arbennig i weithwyr amaethyddol tymhorol, ar wahân i'r system newydd. Bydd trefniadau ar wahân hefyd ar gyfer aduno teuluoedd a cheiswyr lloches.

## Ethol cadeiryddion pwyllgorau dethol Tŷ'r Cyffredin

Cafodd **cadeiryddion pwyllgorau dethol** ar gyfer y Senedd newydd eu hethol. Ail-etholwyd **Hilary Benn** (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymadael â'r UE. Etholwyd **Angus Brendan MacNeil** (SNP) yn Gadeirydd y Pwyllgor Masnach Ryngwladol; **William Wragg** (Ceidwadwyr) yn Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol; a Stephen Crabb (Ceidwadwyr) yn Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

### Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

Cyfarfu **Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)** yng Nghaerdydd ar 28 Ionawr, a hynny am y tro cyntaf ers i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ailymgynnull. Y Prif Weinidog oedd yn y gadair. Cytunodd y Gweinidogion i ryddhau hysbysiad yn nodi:

> Bod y Pwyllgor wedi trafod ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys rôl y gweinyddiaethau datganoledig yn y trafodaethau a'r dewisiadau strategol sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Trafododd y Pwyllgor faterion domestig hefyd, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol.

### Fforwm Gweinidogion ar gyfer Masnach Ryngwladol

Cynhaliwyd cyfarfod ar 23 Ionawr rhwng Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a gweinidogion datganoledig eraill yn **Fforwm y Gweinidogion.** Cadeiriwyd y cyfarfod gan Weinidog yr Adran Masnach Ryngwladol, **Conor Burns.**





# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Trafodaethau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

### Blaenoriaethau negodi Llywodraeth Cymru

**Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** i safbwyntiau negodi agoriadol y DU a'r UE mewn datganiad ar 3 Chwefror. Roedd hwn yn nodi:

> nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud fawr ddim ymdrech i ystyried ein safbwyntiau a'n pryderon wrth inni gyhoeddi'r amcanion hyn

Gosododd **y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** ddatganiad ysgrifenedig am gyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 28 Chwefror. Roedd hwn yn nodi:

> O ran dewisiadau strategol, pwysleisiais fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, ond er mwyn gallu gwneud hynny mae angen inni weld yr wybodaeth sylfaenol sy'n cael ei hystyried ganddynt.

Ar 27 Ionawr, gofynnodd **y Pwyllgor i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** a oedd Llywodraeth Cymru yn barod i gyhoeddi 'rhagor o fanylion am unrhyw linellau coch sydd gennych chi fel Llywodraeth'. Dywedodd:

> Wel, ar hyn o bryd, yn anfoddus, rwy'n credu ei fod e'n gofyn un cam yn rhy bell. Am y rheswm hwn: hynny yw, mae'r ddogfen yn ymateb bras, ar un lefel, i'r datganiad gwleidyddol bras.[....] mae'n gallu ni i ddisgrifio mewn mwy o fanylder beth yw'r dewisiadau hynny yn ddibynnol ar y rôl honno, a'r rhannu gwybodaeth a'r rhannu opsiynau gan Lywodraeth San Steffan.

### Rôl Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau

Yn ei ddatganiad am gyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 28 Chwefror, dywedodd **y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** fod Prif Weinidog Cymru wedi dadlau bod:

> angen i Lywodraeth y DU gytuno ar frys i'r egwyddor o beidio â bwrw ymlaen, fel arfer, heb gytundeb y Llywodraethau Datganoledig mewn perthynas â materion datganoledig

Ar 27 Ionawr, gofynnodd **y Pwyllgor i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** a oedd gan Lywodraeth Cymru gynllun wrth gefn i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar y negodiadau'. Meddai:

> os na chawn ni sail y gallwn ni gytuno arno gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar gyfer ein rôl ni, gallwn ni ddim, fel petai, gorfodi ein hunain i mewn i'r broses yna o negodi [...] bydd yn rhaid i ni gymryd pob cyfle y gallwn ni i sicrhau'n gyhoeddus ein bod ni'n datgan beth rydym ni'n credu sydd ym muddiannau gorau Cymru.

## Trafodaethau rhyngwladol

### Rôl Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau: Concordat Masnach

Ar 10 Chwefror, dywedodd **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wrth y Pwyllgor** fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar goncordat i sicrhau bod ganddi rôl yn y trafodaethau masnach rhyngwladol ac mae disgwyl iddynt gytuno ar y cylch gorchwyl cyn bob hir. Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi sicrhau Llywodraeth Cymru yn y gorffennol na fyddai'n negodi cytundebau newydd nes bod y concordat hwnnw wedi'i gytuno, ond nid oedd yn glir bellach a fyddai'n cadw at yr ymrwymiad hwnnw.

### Rôl Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau: Ymateb y Pwyllgor i'r adroddiad

Ymatebodd **Llywodraeth Cymru** i adroddiad y Pwyllgor ar **Gytundebau Rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad,** gan dderbyn yr holl argymhellion neu eu derbyn mewn egwyddor.

Dywedodd Llywodraeth Cymru na allai ymrwymo i osod memorandwm gerbron y Cynulliad yn asesu goblygiadau dull amlinellol y DU o weithredu mewn perthynas â'r trafodaethau pan gaiff y dull amlinellol hwnnw ei gyhoeddi, gan na fydd y goblygiadau hynny, o bosibl, yn hysbys. Ymrwymodd i ddarparu 'unrhyw wybodaeth am y materion hyn sy'n rhesymol glir yn null amlinellol y DU o weithredu'.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cydsyniad y Cynulliad cyn gofyn i Lywodraeth y DU ddod i gytundeb a fyddai'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd y Llywodraeth y byddai'n egluro y byddai'r Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw gytundeb dros dro yn ymwneud â thrafodaethau cyfrinachol.

### Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru: Grŵp cynghorol rhanddeiliaid arbenigol

Dywedodd **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** wrth y Pwyllgor ei bod yn disgwyl i grŵp cynghorol rhanddeiliaid arbenigol Llywodraeth Cymru gyfarfod am y tro cyntaf rywdro yn y Pasg. Bydd y Grŵp hwn yn helpu i ddatblygu blaenoriaethau masnach.





## Strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru

**Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Strategaeth Ryngwladol ddrafft** ar 5 Chwefror, gan dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn y mae'n gobeithio'i gyflawni drwy gyfrwng y strategaeth ac yn pennu cyfres o dargedau mesuradwy a chamau gweithredu. Yn ôl ymateb Llywodraeth Cymru, mae'r strategaeth yn nodi'r hyn y mae'n gobeithio'i gyflawni ond mae'n anodd pennu targedau mesuradwy pan fo'r berthynas ag Ewrop mor ansicr. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd nad oedd yn bwriadu cyhoeddi cynlluniau manwl pellach ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y strategaeth.

## Fframweithiau Cyffredin

Cyhoeddodd **y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ymateb dros dro** i adroddiad y Pwyllgor, sef **Fframweithiau polisi cyffredin - gwaith craffu gan y Cynulliad**, a hynny ar 23 Ionawr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl hanfodol y Cynulliad yn y broses o ddatblygu'r fframweithiau cyffredin, ond nad oedd yn gallu ymateb yn llawn eto oherwydd bod y rhaglen fframweithiau yn parhau i gael ei thrafod yn rhynglywodraethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu ymateb llawn erbyn diwedd mis Mawrth.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 27 Ionawr, soniodd **y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit** am y modd y gallai rhannau gwahanol o'r DU fynd i gyfeiriadau gwahanol wrth i'r fframweithiau cyffredin ddatblygu:

> If you have one part of the UK deregulating and other parts seeking to align or build upon EU standards, that will require the frameworks to operate in a particular way [...] I'm hoping that the next JMC(EN) in February will be able to consider that.

soniodd y Gweinidog hefyd am yr angen i ddatblygu egwyddorion a threfniadau llywodraethu ar gyfer marchnad fewnol y DU.

> All of those [issues] are going to need to be bottomed out before we're able to finalise the common frameworks programme, essentially.

## Dinasyddion yr UE yng Nghymru

Cynhaliwyd **dadl yn y Cynulliad** ar adroddiad y Pwyllgor, sef **Newidiadau i'r rhyddid i symud ar ôl Brexit: goblygiadau i Gymru,** a hynny ar 22 Ionawr.

Roedd dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru wedi cyflwyno 50,100 o geisiadau i gynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE erbyn diwedd mis Ionawr 2020, **yn ôl y Swyddfa Gartref.** Ar 13 Chwefror, cyhoeddodd **y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** gyllid ychwanegol i gynorthwyo cynghorau i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ac i helpu dinasyddion yr UE i wneud cais.